

Cyngor Cymuned Llanelian (282)

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Rhagfyr 6, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:

Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Cyng Richard Jones, Delyth Owen (Horizon), Richard Foxhall (Horizon)

Ymddiheuriadau:

Gordon Hayes, Carol Whitaker, Hefina Williams, Cyng Aled Morris Jones, Cyng Wil Hughes

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Wylfa Newydd

Croesawyd Richard Foxhall a Delyth Owen i'r cyfarfod. Cafwyd grynodeb ganddynt o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ym mhrosiect Wylfa Newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r hyn sydd i'w ddisgwyl dros y 12 mis nesaf.

Nodwyd y byddai gwelliannau i'r lon o Fali i Gemaes yn cychwyn yn fuan yn y flwyddyn newydd, gyda'r gwaith mawr ar y lon i ddechrau wedi'r penderfyniad buddsoddi gael ei gadarnhau yn 2019. Nodwyd nad oedd unrhyw fwriad i wella'r lon tua Amlwch ar hyn o bryd ond bod hynnu yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad diwethaf. Mae'n rhaid i'r cais cynllunio ddangos bod Horizon wedi ystyried yr holl adborth sydd wedi ei gyflwyno iddynt. Mae disgwyl adroddiad ddiwedd Ionawr/Chwefror ar ganlyniadau'r ymgynghoriad diwethaf, ac efallai bydd ymgynghori pellach ar wahanol agweddau e.e. lleoliadau gwerylloedd dros dro.

Fe ofynnodd Dafydd Griffiths pam fod yr un pwyntiau yn cael eu codi tro ar ol tro gan gynghorau cymuned ac nad oedd atebion ar gael gan y cwmni. Cafwyd gadarnhad gan Richard Foxhall y bydd pob pryder a chwestiwn wedi ei ystyried a'i ateb cyn i'r cais cynllunio mawr gael ei gyflwyno. Disgwylir atebion o fewn 6 mis unwaith bydd yr holl adborth wedi'w ystyried

Un o brif bryderon y Cyngor oedd y nifer o bobl fydd eu hangen ar y safle i gwblhau'r gwaith adeiladu o fewn cyfnod byr iawn. Pwysleiswyd yr angen am gyfleon cyflogaeth i bobl lleol am nifer o flynyddoedd. Byddai'n well gan yr aelodau weld nifer o bobl lleol yn cael gwaith ar y safle am nifer o flynyddoedd yn hytrach na nifer o bobl yn dod i'r ardal ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr ardal a'i wasanaethau.

Cafwyd gadarnhad bod disgwyl hyd at 300 o deuluoedd yn ogystal a'r gweithwyr sengl yng nhyfnod adaeilau'r prosiect. Mae eisioes gwaith ar y gweill i sicrhau na fydd effaith negatif ar yr iaith ac ysgolion yr ardal. Mae disgwyl i'r atomfa gyntaf ddechrau cynhyrchu yn 2025.

Cafwyd wybod gan y cynrychiolwyr bod peth arian bach ar gael mewn ffurf grantiau i'r gymuned lleol yn barod (rydym fel Cyngor eisioes wedi cael £2000 tuag at y cae chwarae). Mae'n debygol bydd cronfa ar gael unwaith bydd y prosiect wedi ei gymeradwyo, er mwyn cefnogi grwpiau lleol

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu hamser a bu iddynt adael am 8.20.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Glenys Jones, eilio Helen Hughes.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Lon yr Ysgol

Mae'r gwaith i ail-baentio'r marciau ffordd tu allan i'r ysgol wedi dechrau. Gofynnwyd os oedd posib cael goleuadau a croesfan penodol fel ardal Amlwch gan fod yr aelodau yn wir bryderus am ddiogelwch plant a phobl ifanc y plwyf.

5.2 Enwau Tai

Nid oedd diweddariad gan Hefina Williams. Nododd Dafydd Griffiths bod rhywun yng nghyfarfod ddiweddar Fforwm Cynghorau Mon wedi datgan bod cynghorau cymuned a'r hawl i fynu a'r enwau Cymraeg ar ddatblygiadau. Gofynnwyd i Cyng Richard Jones adrodd yn ol a chadarnhau os oedd unrhyw wirionedd yn y datganiad neu peidio.

5.3 Rhos Newydd

Daw ebost gan CSYM yn cadarnhau eu bod nawr yn gweithredu ar y mater. Cadarnhawyd bod gan y sawl sy'n gweithio yno hyd nes 12/12/2016 i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod y cais cynllunio. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ar ol y 12eg i weld os oeddent wedi ymateb. Bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro'n agos ac mae'n bwysig bod unigolion yn cysylltu'n uniongyrchol a'r Cyngor Sir fel bod pob cwyn yn cael ei gofrestru'n swyddogol.

5.4 Ceir wedi'w Gadael

Deallwyd bod un o'r ceir eryn hyn wedi ei barcio yng ngardd un o'r tai Cyngor ym Mhengerffwysfa! Mae carafan hefyd yn creu problemau i drigolion lleol. Mae'n debyg ei fod wedi parcio ger garejis y Cyngor Sir, a heb symud ers dwy flynedd. Y Clerc i wirio'r sefyllfa gyda'r swyddogol priodol.

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf

Parhau i ddisgwyl mwy o wybodaeth a chyngor cyfreithiol gan NALC ac Un Llais Cymru.

5.6 Golau'r Neuadd

Nid oes ymateb gan Alan Phillips fyth. Cytuno gofyn i B Roberts Electrical wneud y gwaith. Bydd anfoneb am y gwaith cywiro yn cael ei hafnon at A Phillips.

5.7 Cytundeb Clerc

Cytuno trafod eto yn y flwyddyn newydd pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

5.8 Hysbysfwrdd

Mae perchnogion y siop wedi cytuno i'r Cyngor gael gosod hysbysfwrdd ar ochr y siop. Cytuno edrych i weld beth sydd ar gael am £500 a thrafod ymhellach yn y flwyddyn newydd. Cydnabyddwyd bod yn dyletswydd ar y Cyngor i gyfathrebu gyda'r gymuned.

6 Cynllunio

Nid oedd ceisiadau i'w ystyried na phenderfyniadau i'w cydnabod.

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:
£257.72 Cyflog Tachwedd
£220.00 Gwefan (2016/17-2017/18)

7.2 Ceisiadau am Arian

Yr Urdd, cangen Mon – cytuno gan fod y grwp yn fudiad sirol y byddai posib cael arian o ffynhonnellau eraill ac na fyddai'r Cyngor yn cefnogi.

8 Llithrfa

Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths o gyfarfod Pwyllgor y Llithrfa a gynhaliwyd 30/11/2016. Roedd yn gyfarfod positif iawn ac mae'n debyg bod y system newydd wedi gweithio. Cafwyd addewid gan Jeff Price y byddai'r un gefnogaeth os ddim gwell gan y Cyngor Sir yn 2017. Nodwyd bod elw o £1000 i'r Cyngor Cymuned (a'r un peth i'r Cyngor Sir). Yn ystod y cyfarfod cafwyd wybod gan J Price bod y Cyngor Sir yn edrych ar lleihau costau'r adran forwrol ac efallai na fydd CSYM yn fodlon talu am y wobr a'r faner sydd ym Mhorth Eilian yn 2017 (£270). Cytuno mewn egwyddor y byddai'r Cyngor yn gallu cefnogi cyn rhannu elw'r llithrfa petai angen. Mae disgwyl cadarnhad gan J Price cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

9 **Gohebiaeth**

Nodwyd bod rhifyn diweddaraf Chwarae Dros Gymru ar gael i unrhywun oedd am ei ddarllen.

10 **Unrhyw Fater Arall**

10.1 Lon i Bengorffwysfa – nodwyd bod peth gwaith wedi ei gwblhau ar y lon, a hynu'n waith o safon. Mynegwyd siom nad oedd y lon wedi ei wella tuag at Tyddyn Engan a Charreg Winllan gan fod y wyneb yn dechrau torri yno. Y cleric i gysylltu i ddiolch i'r adran briffyrdd am eu gwaith hyd yma a gofyn beth yw eu bwriad am y chwe mis nesaf yn yr ardal. Nodwyd bod y lon pasio'r ysgol yn lwybr beicio systrans ac felly yn hanfodol ei fod mewn cyflwr da er diogelwch defnyddwyr.

10.2 Fforwm Cynghorau Mon – cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths wedi iddo fynychu cyfarfod diwethaf y grwp.

11 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Ionawr 17, 2017

Bu'r cyfarfod orffen am 9 o'r gloch

Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd